# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## Cofnodion EDT2 05-05

Dyddiad y cyfarfod: 20 Ebrill 2005
Amser y cyfarfod: 9.00-12.30
Lleoliad y cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

### Yn Bresennol

| | |
|---|---|
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Andrew Davies (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth) | Gorllewin Abertawe |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Tamsin Dunwoody-Kneafsey | Preseli Sir Benfro |
| Lisa Francis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |

### Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Bob Macey | Pennaeth yr Is-adran Polisi Economaidd |
| Emyr Roberts | Prif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) |
| Eleanor Marks | Pennaeth yr Is-adran Rhaglenni |
| Gareth Beer | Awdurdod Datblygu Cymru |
| Martin Stevenson | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| | |
|---|---|
| Sian Wilkins | Clerc |
| Sarah Bartlett | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth
## Papur: EDT2 05-05 (p1)

2.1 Roedd Leighton Andrews yn dymuno datgan buddiant gan ddweud mai ei wraig yw Cyfarwyddwr BT Cymru

## Camau i'w cymryd

Cytunodd y Gweinidog i ddosbarthu data ar y gwahaniaeth rhwng y twf yn nifer y swyddi yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus yng Nghymru gan nodi cymariaethau â gweddill y DU.

Cytunodd y Gweinidog i roi gwybod i'r Pwyllgor pryd y bydd Rheilffordd Cambrian yn cael ei adfer yn dilyn y tirlithriad ger y Friog.

Cytunodd y Gweinidog i roi gwybod i'r Pwyllgor ynghylch y rheswm dros ddarparu 7 trên sprinter i'w defnyddio gan gwmni Arriva yn hytrach na bwriad gwreiddiol Arriva i ddarparu 22 o drenau turbostar newydd yn ôl honiadau yn y Western Mail.

Cytunodd y Gweinidog i ofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad os oedd trefniadau effeithiol wedi eu gwneud ar gyfer gwaredu gwastraff o dan y Gyfarwyddeb Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE).

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ar y prosesau sydd ar waith yn CCGC o ran asesiadau effaith amgylcheddol ar gyfer tyrbinau gwynt.

Cytunodd y Gweinidog y byddai ei swyddogion yn trafod y materion a godwyd ynghylch y Prosiect 'Gateway' gyda swyddogion Corus.

Cytunodd y Gweinidog i ofyn am gyngor gan y Gweinidog dros Addysg ynghylch sut y bydd y Cynghorau Sgiliau Sector yn ymgysylltu â'r diwydiant awyrofod.

Cytunodd y Gweinidog i roi gwybod i'r Pwyllgor ynghylch y modd y bydd y grant RSA ar gyfer cyflogi pobl sy'n economaidd anweithgar yn cael ei farchnata.

Cytunodd y Gweinidog i adrodd ymhellach ar y trefniadau diogelwch ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru yn enwedig mewn perthynas â mynediad rhwng y maes ieuenctid a'r brif safle a phwy fydd yn talu am unrhyw drefniadau sydd eu hangen, yn arbennig mewn perthynas â goleuadau.

## Eitem 3: Adroddiad Chwarterol y Cronfeydd Strwythurol
## Papur: EDT2 05-05 (p2)

## Camau i'w cymryd

Cytunodd swyddogion WEFO i ddarparu copïau o'r tablau allbwn a anfonir at y pwyllgorau monitro i'r Aelodau fel rhan o'r adroddiad nesaf i'r Pwyllgor

Cytunodd y Gweinidog i gynhyrchu papur cyn gynted ag y bo modd ynghylch y strwythur posibl ar gyfer y cylch nesaf o gronfeydd strwythurol. Mae hyn yn debygol o fod ar ôl toriad yr haf.

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu dadansoddiad pellach o'r rhan y mae'r sector preifat yn ei chwarae yn rhaglenni'r cronfeydd strwythurol.

## Eitem 4: Strategaeth Blaenau'r Cymoedd
## Papur: EDT2 05-05 (p3)

## Camau i'w cymryd

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor wrth i'r rhaglen gael ei rhoi ar waith.

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhestr lawn o'r wardiau sy'n rhan o'r rhaglen.

## Eitem 5: Rhaglen is-ddeddfwriaeth
## Papur: EDT2 05-05 (p4)

## Camau i'w cymryd

Cytunodd y Cadeirydd y byddai is-ddeddfwriaeth ar uno'r CCNCau â'r Llywodraeth yn cael ei drafod yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 8 Mehefin.

Cytunodd y Gweinidog i roi gwybod i'r Pwyllgor ar hynt y broses o ddiweddaru'r Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol os bydd Mesur Trafnidiaeth (Cymru) yn methu â sicrhau lle yn y rhaglen

ddeddfwriaethol.

Cytunodd y Gweinidog i roi gwybod i'r Pwyllgor ynghylch y rhesymau dros argymell defnyddio'r weithdrefn garlam ar gyfer y gwahanol Reoliadau Gweithfeydd Stryd

Cytunodd y Pwyllgor bod angen craffu ar unrhyw ddeddfwriaeth yn ymwneud â Chodi Tâl Traffig Trwm pan fyddai'n briodol.

## Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi
## Papur: EDT2 04-05 - Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth
## Papur: EDT2 05-05 - Camau heb eu Cymryd

6.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth.

## Gwasanaeth y Pwyllgorau